

Cwm Ivy Habitat Creation Project Project Factsheet



Natural Resources Wales and the National Trust are working in partnership on an exciting and ambitious project to create a saltmarsh at Cwm Ivy Marsh, North Gower. The project, the first of its kind in Wales, will look at how best to recreate up to 39 hectares of new saltmarsh habitat that will provide a new habitat for wildlife.

The project will look at how best to manage the site so Cwm Ivy Marsh can be reintegrated further back into the wider estuary and new saltmarsh habitat will develop. The saltmarsh will provide a new home for an exciting array of wildlife from plants and fish to birds and mammals.

Why is this project happening?

The National Trust and Natural Resources Wales are at the forefront of developing a more sustainable approach to managing the coastline. The National Trust's seminal *Shifting Shores* report promotes working with natural coastal processes to better manage the coastline. Following publication of *Shifting Shores* in 2005, the National Trust identified Cwm Ivy Marsh as a good site for saltmarsh habitat creation and has been working ever since to make this happen.

The saltmarsh at Cwm Ivy is needed to compensate for saltmarsh lost as a result of new and ongoing maintenance of coastal flood defence works elsewhere in Carmarthen Bay and the Lougher Estuary.


Changes are already taking place at Cwm Ivy

As a result of prolonged heavy rainfall in November 2013, the sea wall enclosing Cwm Ivy Marsh was damaged and a small hole emerged allowing sea water into the marsh for the first time in over 300 years. The constant passage of sea water at every high tide gradually opened the hole until a section of the wall and supporting embankment collapsed in August 2014. Since then, the sea has begun to gradually reclaim the marsh. Saltmarsh plant species and other exciting species are already beginning to colonise the site only months after the sea found a way back in.



Sensitive environment

Cwm Ivy is a special place and this is reflected in the wide variety of special landscape, ecological and historical features in the area. This project is assessing the potential effects of the new saltmarsh on these features to make sure we do not cause any unsustainable impacts on the environment. The project will undergo environmental assessment to minimise any potential risks to the environment.



Cwm Ivy Habitat Creation Project Project Factsheet

What are we proposing to do?

We are now looking at a range of options to create new saltmarsh at Cwm Ivy. This involves consideration of economic, environmental and technical aspects as well as talking to local residents and visitors to gain their views. We have developed a 'short list' of options that we think have the most potential to create the new saltmarsh. These are:

No active intervention We could work with nature to allow the saltmarsh to develop naturally. The breach will continue to widen naturally as other sections of the embankment are likely to fail in the future	Widen the breach We could remove more of the embankment and widen the breach to allow the tide to flow into and out of the marsh more easily.
Create multiple breaches We could create several breaches in the embankment to further improve how the tide flows into and out of the marsh	Undertake small-scale works in the marsh There is evidence of a historic network of saltmarsh creeks across the marsh. This option will consider whether excavation of these 'paleo-channels' would improve how seawater flows across the site

Public access and recreation

We recognise the importance of public access around Cwm Ivy Marsh and we want to ensure that people are able to view and enjoy the habitat changes taking place at the site. Whilst the project is focused on delivering the best possible outcome for the new saltmarsh we are also considering ways to enable continued public access to Cwm Ivy embankment.

We believe that there are enormous difficulties in maintaining the embankment as a public footpath. Without significant investment, the embankment will continue to degrade in the future. It is likely that the existing breach will continue to grow naturally and sections of the embankment will fail, possibly opening up multiple breaches. With the effects of climate change, we expect that high tides will wash over the embankment, further undermining its integrity.

We do not have the funding to undertake the significant engineering works needed to maintain the embankment to a safe standard so that it can continue to support the footpath in the long term. Doing such works would be contrary to National Trust and Welsh Government policies for managing the coastline in this area. However, we are considering possible options to restore the footpath across the embankment in the short term.

We are also looking at ways to improve the other footpaths around Cwm Ivy. We are considering options to improve the condition of the footpath through Cwm Ivy Wood, as well as an option for re-routing the footpath at the rear of the Cwm Ivy Marsh to avoid the steep incline on the current route. This is in addition to options to develop new recreation and education activities at the marsh, such as wildlife watching and wildlife trails.

We need to find a permanent solution for the Wales Coast Path route, which is currently diverted along the western and southern boundaries of the marsh. The Wales Coast Path is a nationally important resource. The project is working with the Wales Coast Path team at Natural Resources Wales to find a permanent solution.

What happens next?

We aim to have the preferred option decided by September 2015, after which time and subject to funding, we will move into a detailed design phase that will include applying for planning permission and any other consents required to deliver the project. If any construction works are needed, then we hope to get this underway by late summer 2016 once we have all the necessary consents.


For further information...

Please contact Andrew Basford (Natural Resources Wales Project Manager) on:

Telephone: 03000 65 3846

Email: Andrew.basford@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Address: Natural Resource Wales, Tŷ Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP



Prosiect Creu Cynefin Cwm Ivy

Taflen Ffeithiau



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cydweithio ar brosiect cyffrous ac uchelgeisiol i greu morfa heli yng Nghors Cwm Ivy, Gogledd Gŵyr. Bydd y prosiect, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn ystyried y ffordd orau o ail-greu hyd at 39 hectar o gynefin morfa heli newydd a fydd yn darparu cynefin newydd i fywyd gwylt.

Bydd y prosiect yn ystyried y ffordd orau o reoli'r safle er mwyn i Gors Cwm Ivy ddod yn rhan o'r aber ehangach unwaith eto a sicrhau bod cynefin morfa heli newydd yn datblygu yno. Bydd y morfa heli newydd yn rhoi cartref newydd i amrywiaeth gyffrous o fywyd gwylt, o blanhigion a physgod i adar a mamaliaid.

Beth yw diben y prosiect hwn?

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y ffordd wrth ddatblygu dull gweithredu mwy cynaliadwy wrth rheoli'r morlin. Mae adroddiad arloesol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, *Shifting Shores*, yn hyrwyddo gweithio gyda phrosesau arfordirol naturiol er mwyn rheoli'r morlin yn well. Yn dilyn cyhoeddiad *Shifting Shores* yn 2005, nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod Cors Cwm Ivy yn safle da i greu cynefin morfa heli, ac mae wedi bod yn gweithio i wireddu hyn ers hynny.

Mae'r morfa heli yng Nghwm Ivy yn angenrheidiol er mwyn gwneud iawn am y morfa heli sy'n cael ei golli mewn mannau eraill ym Mae Caerfyrddin ac Aber Llŵch o ganlyniad i waith cynnal a chadw newydd a pharhaus i amddiffynfeydd rhag llifogydd.


Mae newidiadau ar droed yng Nghwm Ivy

Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfnod hir o law trwm ym mis Tachwedd 2013, difrodwyd y morglawdd sy'n amgáu Cors Cwm Ivy, ac agorodd twll bychan a adawodd ddŵr y môr i mewn i'r gors am y tro cyntaf ers dros 300 mlynedd. Yn raddol, lledodd y twll o ganlyniad i lif cyson dŵr y môr ac, ym mis Awst 2014, syrthiodd rhan o'r morglawdd a'r arglawdd a oedd yn ei gynnal. Ers hynny, mae'r môr wedi dechrau ailfeddiannu'r gors yn raddol, ac mae'r bwch yn y morglawdd wedi parhau i dyfu'n naturiol. Mae rhywogaethau planhigion morfa heli a rhywogaethau cyffrous eraill eisoes wedi dechrau cytrefu'r safle, a hynny ond ychydig fisoedd ers i'r môr ddychwelyd yno.



Amgylchedd sensitif

Mae Cwm Ivy yn lle arbennig a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth eang o nodweddion arbennig yn yr ardal o ran tirwedd, ecoleg a hanes. Mae'r prosiect hwn yn asesu effeithiau posibl y morfa heli newydd ar y nodweddion yma er mwyn sicrhau nad ydym yn achosi unrhyw effeithiau anghynaliadwy ar yr amgylchedd. Bydd y prosiect yn destun asesiad amgylcheddol er mwyn lliniaru unrhyw risgiau posibl i'r amgylchedd.



Beth rydym yn bwriadu ei wneud?

Rydym bellach yn ystyried amrywiaeth o opsiynau i greu morfa heli newydd yng Nghwm Ivy. Mae hyn yn cynnwys ystyried agweddau economaidd, amgylcheddol a thechnegol, yn ogystal â siarad â phreswylwyr lleol ac ymwelwyr er mwyn clywed eu barn. Rydym wedi llunio 'rhestr fer' o opsiynau sydd â'r potensial mwyaf i greu'r morfa heli newydd:

Dim ymyrraeth gweithredol Gallem gydweithio â natur er mwyn galluogi'r morfa heli i ddatblygu'n naturiol. Bydd y bwllch yn parhau i ehangu'n naturiol gan fod rhannau eraill o'r arglawdd yn debygol o syrthio yn y dyfodol wrth i sianeli draenio newydd gael eu creu ar draws y gors.	Ehangu'r bwllch Gallem dynnu rhagor o'r arglawdd i lawr ac ehangu'r bwllch er mwyn galluogi'r llanw i lifo i mewn ac allan o'r gors yn haws.
Creu nifer o fylchau Gallem greu nifer o fylchau yn yr arglawdd er mwyn gwella'r ffordd y mae'r llanw yn llifo i mewn ac allan o'r gors.	Ymgymryd â gwaith ar raddfa fach yn ardal y gors Mae tystiolaeth bod rhwydwaith o gilfachau morfa heli hanesyddol ledled y gors. Bydd yr opsiwn hwn yn ystyried p'un a fyddai cloddio'r 'sianeli paleo' hyn yn gwella'r ffordd y mae dŵr y môr yn llifo ar draws y safle..

Mynediad i'r cyhoedd a hamdden

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynediad i'r cyhoedd o amgylch Cors Cwm Ivy ac rydym yn awyddus i sicrhau bod modd i bobl weld a mwynhau'r newidiadau sy'n digwydd i gynefinoedd ar y safle. Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniad gorau posibl ar gyfer y morfa heli newydd, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o sicrhau y gall y cyhoedd barhau i gael mynediad i arglawdd Cwm Ivy.

Credwn fod anawsterau enfawr o ran cadw'r arglawdd fel llwybr cyhoeddus. Heb fuddsoddiad sylweddol, bydd ansawdd yr arglawdd yn parhau i ddirywio yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd y bwllch presennol yn parhau i dyfu'n naturiol a bydd rhannau o'r arglawdd yn methu, gan greu nifer o fylchau o bosibl. Gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn achosi i lefel y môr godi, rydym yn disgwyl y bydd penllanw yn llifo dros yr arglawdd, gan achosi difrod pellach. Nid oes gennym y cyllid i gyflawni'r gwaith peirianyddol sylweddol sydd ei angen i gynnal a chadw'r arglawdd i safon ddiogel fel y gall barhau i gefnogi'r llwybr troed yn yr hirdymor. Byddai cyflawni gwaith o'r fath yn groes i bolisiau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r morlin yn yr ardal hon. Rydym yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer adfer y llwybr troed ar hyd yr arglawdd yn y tymor byr.

Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o wella'r llwybrau troed eraill o amgylch Cwm Ivy. Rydym yn ystyried opsiynau i wella cyflwr y llwybr troed drwy Goedwig Cwm Ivy, yn ogystal ag opsiwn ar gyfer dargyfeirio'r llwybr troed sydd yng nghefn Cors Cwm Ivy er mwyn osgoi'r graddiant serth sydd ar y llwybr presennol. Rydym hefyd yn ystyried opsiynau eraill i ddatblygu gweithgareddau hamdden ac addysg newydd yn y gors, fel gwyllo bywyd gwylt a llwybrau bywyd gwylt.

Mae angen i ni ganfod ateb parhaol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddargyfeirio ar hyd ffiniau gorllewinol a deheuol y gors. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn adnodd cenedlaethol pwysig. Mae'r prosiect yn cydweithio â thîm Llwybr Arfordir Cymru yn Cyfoeth Naturiol Cymru i ganfod ateb parhaol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Y nod yw penderfynu ar opsiwn dewisol erbyn mis Medi 2015. Wedi hynny, ac os bydd cyllid ar gael, byddwn yn symud ymlaen i gam cynllunio manwl a fydd yn cynnwys ymgeisio am ganiatâd cynllunio ac unrhyw ganiatadau eraill fydd eu hangen i gyflawni'r prosiect. Os bydd angen unrhyw waith adeiladau, yna rydym yn gobeithio bydd y gwaith yn dechrau erbyn diwedd haf 2016 unwaith y byddwn wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol.

Am ragor o wybodaeth...

Cysylltwch ag Andrew Basford (Rheolwr Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru) ar:

Ffôn: 03000 65 3846 E-bost: andrew.basford@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP.

